Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rhagfyr 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Gorchymyn Adran 109: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015

Cefndir

1. Ar 5 Tachwedd 2014, gosododd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ("y Gweinidog") Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015 ("y Gorchymyn arfaethedig") a Memorandwm Esboniadol, yn unol â Rheol Sefydlog 25. Ysgrifennodd atom ar yr un dyddiad, ac mae copi o'r llythyr hwn ynghlwm yn Atodiad 1.

2. Mae Rheol Sefydlog 25 yn nodi'r weithdrefn y dylid ei dilyn mewn perthynas â thrafod Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sydd i'w gwneud o dan dan adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

3 Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig ar 10 Tachwedd.

4. Ar 11 Tachwedd, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Gorchymyn arfaethedig atom ni a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, gan nodi bod angen adrodd yn ôl arno erbyn 3 Rhagfyr 2014.

5. Wedyn, ysgrifennodd y Gweinidog at y Llywydd ar 14 Tachwedd i nodi testun drafft o welliant i Ddeddf 2006. Mae'r ohebiaeth hon ynghlwm yn Atodiad 2.

6. Rydym wedi nodi tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy a'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch y Gorchymyn arfaethedig, a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Y Gorchymyn arfaethedig

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

> "Byddai'r offeryn ("y Gorchymyn") yn diwygio Atodlen 7 o Ddeddf 2006 i roi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") addasu adran 79 (datblygu cynaliadwy) o Ddeddf

> Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), neu roi'r pŵer trwy is-ddeddfwriaeth i'w addasu."
>
> Nid yw'r Gorchymyn hwn ei hun yn gwneud unrhyw newid arall. Y cwbl y mae'n ei wneud yw caniatáu i'r Cynulliad ystyried diwygio adran 79 o Ddeddf 2006, pe bai'n dewis gwneud hynny. Byddai Llywodraeth Cymru'n gobeithio dwyn diwygiad o'r fath i adran 79 gerbron yn ystod hynt y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)..." [1]

8. Ar ôl i unrhyw Orchymyn drafft a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi gael ei gymeradwyo, rhagwelir y caiff y Gorchymyn ei wneud mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor ym mis Chwefror 2015.

Trafodaeth

9. Rydym yn fodlon â'r Gorchymyn arfaethedig.

10. Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ei gwelliant arfaethedig i adran 79 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, a hynny ymlaen llaw, cyn i Orchymyn drafft gael ei wneud.

11. Yn ein barn ni, bydd y dull hwn yn galluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses a chyflwyno sylwadau ar y diwygiad arfaethedig i Ddeddf 2006 cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol yn ystod trafodion Cyfnod 3 o'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd, ar hyn o bryd, wedi'u trefnu ar gyfer mis Mawrth 2015.

[1] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 4 a 5